

# CYFARFOD PENDERFYNIADAU DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Iau, 27 Chwefror 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd: L.M. Stephens (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**

A Clarke, Partner Busnes Arweiniol (AD)

E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31  
1JP. - 2.00 - 2.20 yp

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR THE 5ED GORFFENNAF, 2019

**PENDERFYNWYD** llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 5ed Gorffennaf, 2019 yn gofnod cywir.

## 3. POLISI ABSENOLDEB SALWCH

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad ynghylch y Polisi Absenoldeb Salwch diweddaraf. Roedd y Polisi wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn dilyn sylwadau gan undebau llafur cydnabyddedig drwy Fforwm Corfforaethol Cysylltiadau â'r Gweithwyr ac ymgynghoriad dilynol â'r Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau a rheolwyr pobl yr Awdurdod.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at y polisi diweddaraf ac awgrymodd y newidiadau canlynol:

- 1.0 Cyflwyniad – dylid cynnwys y canlynol yn y paragraff olaf - "*ystyried symud drwy'r weithdrefn absenoldeb salwch ar sail y wybodaeth sydd ar gael*" a/neu gymryd camau disgyblu, fel y bo'n briodol.
- 9.1 Cyfarfod Cefnogi'r Gweithiwr (ESM) – dylid cynnwys y gallai Skype fod yn ddull priodol o gynnal y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD**, yn amodol ar gynnwys y newidiadau a nodwyd uchod, gymeradwyo'r Polisi Absenoldeb Salwch diweddaraf.

---

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL**

---

**DYDDIAD**